

ELIZABETH YR AIL drwy Ras Duw Brenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'n Gwledydd a'n Tiriogaethau Eraill, Pennaeth y Gymanwlad, Amddiffynnydd y Ffydd:

I BAWB Y DAW'R PRESENOLION HYN ATYNT, CYFARCH!

YN GYMAINT ag y darfu i Amgueddfa Genedlaethol Cymru ("yr Amgueddfa") gael ei chorffori gan Siarter Frenhinol a roddwyd ar 19^{eg} Mawrth 1907 ("y Siarter Wreiddiol")

AC YN GYMAINT ag y gwelsom yn dda i ddiddymu'r Siarter Wreiddiol drwy Siarter Atodol a roddwyd ar 10^{fed} Hydref 1990 ("Siarter Atodol 1990") ac eithrio i'r graddau ag yr oedd yn corffori ac yn sefydlu'r Amgueddfa yn Gorff Corfforaethol gydag olyniaeth barhaol a Sêl Gyffredin ac i wneud darpariaeth ychwanegol mewn perthynas â chyfansoddiad a threfn lywodraethu'r Amgueddfa:

AC YN GYMAINT â bod yr Amgueddfa drwy Ddeiseb ostyngedig wedi awgrymu Wrthym y byddai'n ddoeth er mwyn rheoli ei busnes a chyflawni ei Hamcanion yn well ddiwygio cyfansoddiad a threfn lywodraethu'r Amgueddfa yn sylweddol:

AC YN GYMAINT â bod yr Amgueddfa drwy'r Ddeiseb honno wedi erfyn Arnom ymfodloni'n raslon i roddi iddi Siarter Atodol ychwanegol at y dibenion hynny:

AC YN GYMAINT â'n bod yn dymuno ildio i erfyniad y Ddeiseb honno.

YN AWR GAN HYN NY GWYBYDDWCH CHI ein bod Ni, ar ôl rhoddi Ein Hystyriaeth Frenhinol i'r Ddeiseb honno, yn rhinwedd Ein Rhagorfraint Frenhinol a'n graslonrwydd arbennig, Ein gwybodaeth sicr a'n hysgogiad Ein hun, wedi gweld yn dda i ganiatáu a datgan, a'n bod drwy hyn ar Ein Rhan Ni, Ein Hetifeddion a'n Holynwyr, yn caniatáu ac yn datgan fel a ganlyn:

Parhad y
Corff
Corfforaethol

1. Bod yr Amgueddfa, yn unol ag effeithiau gweddilliol y Siarter Wreiddiol yn parhau ac aros am byth yn un corff corfforaethol a llywodraethol o dan enw a theitl "Amgueddfa Genedlaethol Cymru" neu "The National Museum of Wales" gydag olyniaeth barhaol a Sêl Gyffredin gyda'r gallu yn y naill enw neu'r llall i ddwyn ac amddiffyn achosion cyfreithiol ac i wneud pob mater ac unpeth arall sy'n achlysurol neu'n berthnasol i gorff corfforaethol.

Diddymu
Siarteri
Blaenorol

2. Diddymir drwy hyn Siarter Atodol 1990 ond nid oes dim yn y diddymiad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd na chyfreithlondeb unrhyw weithred neu unpeth a wnaed yn gyfreithlon o dan y Siarter honno.

Aelodau

3. Bydd gan yr Amgueddfa fwrdd o ymddiriedolwyr ("yr Ymddiriedolwyr") wedi ei sefydlu yn unol â'n Siarter Atodol hon a'r Statudau a'r Ymddiriedolwyr fydd aelodau'r corff corfforaethol sy'n parhau.

Amcanion

4. Yn ddarostyngedig i delerau ein Siarter Atodol hon, dim ond ar gyfer ei hamcanion ("yr Amcanion") y defnyddir incwm ac eiddo'r Amgueddfa sef

hyrwyddo addysg y cyhoedd:

- (i) yn bennaf, drwy ddarlunio'n gyflawn wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, a

- (ii) yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwella dealltwriaeth a hybu ymchwil.

Galluoedd

5. Er mwyn hyrwyddo'r Amcanion, ond heb amharu ar ei galluoedd o dan y gyfraith fel corfforaeth siartredig, bydd gan yr Amgueddfa y galluoedd a ganlyn:

- (i) gwarchod unrhyw wrthrychau, pethau neu wybodaeth a'u cadw, eu casglu, eu diogelu, eu cynnal a'u cadw, eu cofnodi a'u benthyca neu roi mynediad atynt;
- (ii) darparu ar gyfer casglu, golygu, cyhoeddi, cofnodi ac atgynhyrchu gwybodaeth, darluniau, deunyddiau neu weithiau ar unrhyw ffurf a'u gwerthu a'u dosbarthu;
- (iii) cydweithio neu gydweithredu ag unrhyw sefydliad, awdurdod cyhoeddus, corff cyhoeddus, cwmni, cymdeithasiad anghorfforedig, cymdeithas, ymddiriedolaeth neu berson (gan gynnwys drwy bartneriaeth neu fenter ar y cyd) a chyfnewid gwybodaeth a chyingor gyda hwy;
- (iv) gwneud trefniadau fel y gall amgueddfeydd a chyrrff perthnasol eraill fod yn gysylltiedig â'r Amgueddfa;
- (v) gweithredu fel ymddiriedolwr a meddiannu neu dderbyn unrhyw eiddo, cymynrodd, cynhysgaeth neu rodd (boed yn ddarostyngedig i rwymedigaethau neu amod ai peidio) gan gynnwys eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth, gan unrhyw berson neu gorff nad yw ei amcanion neu ei ddibenion yn anghyson â'r Amcanion;
- (vi) ceisio a chael cymorth grant gan gyrff sy'n rhoi grantiau;
- (vii) codi arian mewn unrhyw ffordd nad yw'n peryglu statws elusennol gan gynnwys drwy godi taliadau neu ffioedd;
- (viii) prynu, prydlesu, cyfnewid, hurio neu gaffael fel arall unrhyw eiddo a chynnal a chadw'r cyfryw eiddo, ei reoli, ei gyfarparu ac ymdrin ag ef;
- (ix) yn ddarostyngedig i delerau unrhyw ymddiriedolaeth arbennig, gwerthu, prydlesi neu fel arall waredu (gan gynnwys drwy rododi neu ddinistrio) holl eiddo, asedau neu hawliau'r Amgueddfa neu unrhyw ran ohonynt ar yr amod eu bod ond yn cael eu gwaredu yn unol â Rheoliadau a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr i'w rheoli;
- (x) cael benthyg arian gyda neu heb ernes;
- (xi) rhoi benthyciadau neu grantiau a rhoi gwarantau ac indemniadau;
- (xii) gwneud contractau ac ymgymryd â thrafodion masnachol eraill;

- (xiii) sefydlu neu gynorthwyo unrhyw ymddiriedolaeth, cymdeithasiad neu sefydliad elusennol a sefydlu, tanysgrifio am gyfranddaliadau neu brynu cyfranddaliadau unrhyw Gwmni y mae ei amcanion yn gyson â'r Amcanion neu fod yn aelod o'r cyfryw Gwmni;
- (xiv) uno ag unrhyw gorff corfforaethol, sefydliad, cymdeithas neu gymdeithasiad sy'n elusennol o dan y gyfraith ac sy'n meddu ar amcanion sy'n debyg i'r Amcanion neu'n gyson â hwy ac sy'n gwahardd talu unrhyw ddfidend neu elw i'r aelodau neu ddsbarthu asedau yn eu plith;
- (xv) neilltuo incwm fel cronfa wrth gefn ar gyfer gwariant yn y dyfodol ond yn unig yn unol â pholisi a bennir gan yr Ymddiriedolwyr;
- (xvi) cyflogi a thalu'r cyfryw staff ag sy'n angenrheidiol i wneud gwaith yr Amgueddfa ac, os bydd angen, diswyddo'r cyfryw staff a rheoleiddio cyflogau ac amodau cyflogaeth y cyfryw staff gan gynnwys trefnu cynlluniau pensiwn;
- (xvii) rhoddi i unrhyw berson (gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd) deitl mygedol Noddwr neu ddyndiad priodol arall nas defnyddir fel arall gan yr Amgueddfa;
- (xviii) adneuo neu fuddsoddi arian; cyflogi rheolwyr cronfeydd proffesiynol; a threfnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall yr Amgueddfa gael eu dal yn enw enwebai, y cyfryw alluoedd i'w defnyddio yn yr un modd ag y caniateir i ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth ei wneud o dan y gyfraith ac yn ddarostyngedig i'r un amodau;
- (xix) yswirio'r Ymddiriedolwyr rhag costau amddiffyn yn llwyddiannus erlyniad troseddol a ddygwyd yn eu herbyn fel ymddiriedolwyr elusen neu rhag atebolrwydd personol y deuir yn agored iddo mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anwaith sy'n dor-ymddiried neu'n dor-dyletswydd neu yr honnir ei fod yn dor-ymddiried neu'n dor-dyletswydd oni bai bod yr Ymddiriedolwr dan sylw yn gwybod bod y weithred neu'r anwaith yn dor-ymddiried neu'n dor-dyletswydd neu ei fod yn ddi-hid ynghylch a oedd y weithred neu'r anwaith yn dor-ymddiried neu'n dor-dyletswydd;
- (xx) cyflawni pob cyfryw weithred ac unpeth cyfreithlon arall ag a fo'n angenrheidiol i gyflawni'r Amcanion;
- (xxi) cyflawni'r Amcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a'r cyfryw ieithoedd eraill ag a dybir yn briodol gan yr Ymddiriedolwyr.

Swyddogion ac
Ymddiriedolwyr yr
Amgueddfa

6. (i) Yr Ymddiriedolwyr fydd corff llywodraethu'r Amgueddfa yn gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo'r Amgueddfa gyda'r gallu unigryw i reoli defnyddio a gwarchod Sêl Gyffredin yr Amgueddfa ac arfer holl alluoedd yr Amgueddfa a chyda'r gallu i benderfynu ar unrhyw fater mewn perthynas â busnes yr Amgueddfa ac eithrio materion sy'n gofyn am awdurdod pellach o dan Ein Siarter Atodol hon neu o dan y gyfraith.

(ii) Ni fydd mwy na dau ar bymtheg unigolyn na llai na deg unigolyn yn Ymddiriedolwyr gan gynnwys unrhyw Swyddogion.

(iii) Gall yr Amgueddfa gael y swyddogion a ganlyn (“y Swyddogion”):

- (a) Llywydd;
- (b) Is-Llywydd;
- (c) Trysorydd

a heb gyfyngu ar yr uchod caiff yr Ymddiriedolwyr amrywio teitl y Swyddogion fel y penderfynant o bryd i’w gilydd.

(iv) Penodir yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys unrhyw Swyddogion, yn unol â’r Statudau.

(v) Y Llywydd fydd yn cadeirio cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr oni fydd dim Llywydd. Os felly bydd Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr yn cael ei benodi yn unol â’r Statudau.

(vi) Caiff yr Amgueddfa dalu i’r Ymddiriedolwyr y cyfryw gydnabyddiaeth ag a awdurdodir (naill ai’n gyffredinol neu’n benodol) yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ar y cyfryw amodau yn unig ag sy’n ofynnol gan y cyfryw awdurdod.

(vii) Caiff yr Amgueddfa ad-dalu i’r Ymddiriedolwyr dreuliau yr aed iddynt yn rhesymol ganddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau.

(viii) Caiff yr Amgueddfa indemnio’r Ymddiriedolwyr rhag unrhyw atebolrwydd y deuir yn gywir yn agored iddo wrth reoli’r Amgueddfa (gan gynnwys costau amddiffyn achosion troseddol yn llwyddiannus).

Prif
Weithredwr
yr
Amgueddfa

7. Bydd gan yr Amgueddfa brif swyddog cyflogedig gyda’r cyfryw deitl ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr ac ef neu hi fydd y Prif Weithredwr ond ni fydd yn Ymddiriedolwr. Bydd gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli a gweinyddu’r Amgueddfa ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Statudau

8. Rheolir a rheoleiddir materion yr Amgueddfa yn unol â statudau’r Amgueddfa a gynhwysir yn yr atodlen i’n Siarter Atodol hon (“y Statudau”) a fydd yn parhau mewn grym nes iddynt gael eu diddymu, nes yr ychwanegir atynt neu nes iddynt gael eu diwygio fel y darperir isod. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Ein Siarter Atodol hon, caiff y Statudau bennu, rheoleiddio neu ddarparu ar gyfer:

- (i) Statws, penodiad a hyd penodiad yr Ymddiriedolwyr;
- (ii) Cyfansoddiad, swyddogaethau, dyletswyddau a gweithdrefnau’r Ymddiriedolwyr a strwythurau gweinyddol eraill yr Amgueddfa;
- (iii) Sefydlu a dileu pwyllgorau’r Amgueddfa a chyfansoddiad, swyddogaethau, galluoedd, dyletswyddau a gweithdrefnau’r cyfryw bwyllgorau;

- (iv) Unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r Amgueddfa neu sydd fel arall yn hyrwyddo'r Amcanion.

Diwygio'r
Siarter a'r
Statudau

9. Caiff yr Ymddiriedolwyr drwy benderfyniad i'r perwyl hwnnw a basiwyd mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr gan fwyafrif nad yw'n llai na thri chwarter yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio (sef mwyafrif absoliwt o'r holl Ymddiriedolwyr)

- (i) ychwanegu at unrhyw ddarpariaethau Ein Siarter Atodol hon neu'r Statudau, eu diwygio neu eu diddymu;

- (ii) newid enw'r Amgueddfa

AR YR AMOD na fydd y cyfryw ychwanegiad i'n Siarter Atodol hon neu'r cyfryw ddiwygio neu ddiddymu a newid enw yn dod i rym nes i Ni, Ein Hetifeddion neu ein Holynwyr yn y Cyngor ei ganiatáu ac ar yr amod na fydd y cyfryw ychwanegiad, diwygio neu ddiddymu i'r Statudau yn dod i rym nes i'n Cyfrin Gyngor Tra Anrhydeddus ei gymeradwyo a bydd tystysgrif o dan law Clerc Ein Cyfrin Gyngor yn dystiolaeth derfynol i'r gymeradwyaeth honno.

laith

10. Mae i destun Cymraeg a thestun Saesneg Ein Siarter Atodol hon neu'r Statudau yr un dilysrwydd.

Diddymu

11. Caiff yr Ymddiriedolwyr drwy benderfyniad a wnaed yn unol â'r weithdrefn a nodir yn erthygl 9 benderfynu ildio Ein Siarter Atodol hon a'r Siarter Wreiddiol yn ddarostyngedig i'n caniatâd Ni, Ein Hetifeddion neu Ein Holynwyr yn y Cyngor ar y cyfryw amodau ag y gwelwn Ni neu ag y gwelant Hwyl yn dda, a dirwyn materion yr Amgueddfa i ben neu fel arall ymdrin â hwyl ac os, ar adeg dirwyn i ben neu ddiddymu'r Amgueddfa, erys unrhyw eiddo neu gronfeydd bynnag ar ôl talu dyledion a bodloni rhwymedigaethau, ni fyddant yn cael eu dosbarthu ymhlith aelodau'r Amgueddfa ond byddant yn cael eu rhoddi neu eu trosglwyddo i ryw gorff elusennol arall a chanddo amcanion tebyg i amcanion yr Amgueddfa ac y mae ei gyfansoddiad yn cyfyngu ar ddsbarthu incwm ac eiddo i'r un graddau neu i raddau mwy na'n Siarter Atodol hon, yn ddarostyngedig i unrhyw ymddiriedolaethau arbennig sy'n effeithio arnynt.

Diddymu
Statudau ac
Ordinadau
Blaenorol

12. Diddymir drwy hyn y Statudau a'r Ordinadau oedd yn bodoli ar y diwrnod cyn i'n Siarter Atodol hon ddod i rym ac yn awr daw'r Atodlen i'n Siarter Atodol hon i rym.

A'n Hewyllys a'n Pleser Brenhinol yw y dehonglir Ein Siarter Atodol hon yn wastad yn llesiannol ac ym mhob achos yn y modd mwyaf ffafriol i'r Amgueddfa a'i Hamcanion.

YN DYSTIOLAETH i hyn Parasom wneud Yn Gyhoeddus Ein Llythrau hyn.

TYST ohonom Ni Ein Hunain yn San Steffan ar y pedwerydd dydd ar bymtheg hwn o fis Medi yn y bymthegfed flwyddyn a deugain o'n Teyrnasiad.

TRWY WARANT O DAN LOFNOD Y FRENHINES

ALLAN

YR ATODLEN

STATUDAU'R AMGUEDDFA (16ed Rhagfyr 2013)

1. *Diffiniadau*

- (1) Mae i'r geiriau a ddiffinnir yn y Siarter y mae'r Statudau hyn yn Atodlen iddi ("y Siarter") yr un ystyr yn y Statudau hyn oni fydd y cyd-destun yn gofyn yn wahanol.
- (2) Yn y Statudau hyn:

ystyr "Rheoliadau" yw rheoliadau a wneir gan yr Ymddiriedolwyr yn unol â'r Siarter neu'r Statudau hyn.

ystyr "Penodwr" yw naill ai Gweinidogion Cymru neu'r Ymddiriedolwyr fel y caniatâ'r cyd-destun.
- (3) Mae geiriau sy'n dynodi'r genedl wrywaidd yn cynnwys y genedl fenywaidd, mae geiriau unigol yn cynnwys rhai lluosog ac mae geiriau lluosog yn cynnwys rhai unigol onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.
- (4) Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn cynnwys y gyfryw ddeddfwriaeth fel y'i diwygir neu y'i hail-ddeddfir ac mae cyfeiriadau at gyrff a enwir yn cynnwys y cyrff hynny fel y'u hailenwyd a chyrrff olynol i'r cyfryw gyrff.

2. *Y Swyddogion*

- (1) Bydd y sawl sy'n dal swydd y Llywydd, yr Is-Lywydd a'r Trysorydd yn union cyn i'r Statudau hyn ddod i rym gyntaf yn parhau i ddal y gyfryw swydd, er gwaethaf Statud 3(3)(a), am y tymor llawn sy'n weddill y cafodd ei ethol amdano neu nes iddo beidio â bod yn Ymddiriedolwr.
- (2)
 - (a) Ar unrhyw adeg pan ddaw swydd y Llywydd neu'r Is-Lywydd yn wag, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ydynt am benodi Llywydd neu Is-Lywydd olynol ac, os byddant yn penderfynu penodi Llywydd neu Is-Lywydd olynol, caiff unrhyw Lywydd neu Is-Lywydd olynol ei benodi gan Weinidogion Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr.
 - (b) Ar unrhyw adeg pan ddaw swydd y Trysorydd yn wag, rhaid i'r Ymddiriedolwyr benderfynu a ydynt am benodi Trysorydd olynol ac, os byddant yn penderfynu penodi Trysorydd olynol, caiff unrhyw Drysorydd olynol ei benodi gan yr Ymddiriedolwyr mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru. Pennir y weithdrefn sydd i'w dilyn ar gyfer penodi Trysorydd newydd drwy Reoliad.
 - (c) Bydd Llywydd, Is-Lywydd a Thrysorydd ('Swyddog') yn dal eu swydd am bedair blynedd o ddyddiad eu penodiad.

- (ch) Bydd Swyddog sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailbenodi i'r un swydd am un tymor olynol arall o bedair blynedd, ei benodi i swydd arall yn unol â'r Statud 2 hon neu, ei benodi'n Ymddiriedolwr yn unol â Statud 3.

Ar Yr Amod Bob Amser, ac eithrio yn achos penodiad a wneir yn unol â Statud 3(1)(c) na fydd unrhyw berson yn gwasanaethu am gyfanswm o fwy na deuddeg mlynedd yn olynol fel Ymddiriedolwr gan gynnwys unrhyw gyfnod o wasanaeth fel Swyddog AC na fydd unrhyw berson yn gwasanaethu am fwy nag wyth mlynedd yn olynol mewn unrhyw swydd.

- (3) Bydd cyn-Ymddiriedolwr (neu gyn-Swyddog) yn gymwys i gael ei benodi'n Swyddog ar yr amod bod y cyfryw berson wedi gwasanaethu fel Ymddiriedolwr (neu Swyddog), ddiwethaf fwy na phedair blynedd yn ôl.
- (4) Bydd y Llywydd, os yw'n bresennol, yn llywyddu ym mhob cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ac, yn absenoldeb y cadeirydd penodedig, o bob Pwyllgor o'r Ymddiriedolwyr (ac eithrio'r pwyllgor archwilio).
- (5) Yn absenoldeb y Llywydd neu os bydd yn methu neu'n peidio â gweithredu oherwydd afiechyd neu yn ystod unrhyw fwch yn swydd y Llywydd, cyflawnir swyddogaethau'r Llywydd gan yr Is-Lywydd.
- (6) Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â phenodi Llywydd ac Is-Lywydd o dan delerau'r Siarter a'r Statudau hyn penodir Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr gan Weinidogion Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Statudau 2(2) a 2(3) uchod a bydd unrhyw Gadeirydd ac Is-Gadeirydd a benodir fel hyn yn cyflawni swyddogaeth'r Llywydd a'r Is-Lywydd o dan y Siarter a'r Statudau hyn.
- (7) Caiff unrhyw un o'r Swyddogion ymddiswyddo drwy ysgrifennu at ei Benodwr. Yn achos y Llywydd, rhoddir rhybudd o'r cyfryw ymddiswyddiad i'r Is-Lywydd hefyd ac yn achos yr Is-Lywydd a'r Trysorydd, rhoddir rhybudd o'r cyfryw ymddiswyddiad i'r Llywydd hefyd.
- (8) Os daw swydd yn wag ac eithrio oherwydd treigl amser dylai'r Penodwr perthnasol lenwi'r swydd wag yn unol â Statud 2(2)(a) neu (b) fel sy'n briodol o fewn chwe mis i'r swydd wag godi.
- (9) Bydd y Trysorydd neu, yn absenoldeb Trysorydd, y cyfryw Ymddiriedolwr arall ag a ddynodir gan yr Ymddiriedolwyr yn cyflwyno i'r Ymddiriedolwyr adroddiad blynyddol ar faterion ariannol yr Amgueddfa a chyflawni'r cyfryw swyddogaethau ariannol eraill ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

3. *Bwrdd yr Ymddiriedolwyr*

- (1) Yn ddarostyngedig i'r Siarter, mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnwys y personau a ganlyn:
- (a) Naw person a benodir gan Weinidogion Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr, a fydd yn cynnwys yn eu plith unrhyw Swyddogion a benodir yn unol â Statud 2(2)(a);

- (b) Saith person a benodir gan yr Ymddiriedolwyr yn unol â'r Rheoliadau, a fydd yn cynnwys yn eu plith unrhyw Swyddog a benodir yn unol â Statud 2(2)(b); ac
 - (c) Os dymuna'r Ymddiriedolwyr, un person, sef y cyn-Lywydd olaf os oes un neu os nad oes un, cyn-Gadeirydd olaf yr Ymddiriedolwyr, a benodir gan yr Ymddiriedolwyr am gyfnod o flwyddyn ar y mwyaf.
- (2) Ac eithrio yn achos penodiad yn unol â Statud 3(1)(c), bydd Ymddiriedolwyr yn dal eu swydd am bedair blynedd neu nes iddynt beidio â bod yn Ymddiriedolwr os digwydd hynny ynghynt ac yn ddarostyngedig i Statud 3(3)(a) maent yn gymwys i gael eu hailbenodi neu eu penodi yn unol â Statud 2(2).
- (3) (a) (i) Bydd Swyddog sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei benodi'n Ymddiriedolwr;
- (ii) Bydd Ymddiriedolwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailbenodi am un tymor olynol arall o bedair blynedd yn unig neu ei benodi i swydd yn unol â Statud 2;
- Ar Yr Amod Bob Amser, ac eithrio yn achos penodiad a wneir yn unol â Statud 3(1)(c), na fydd unrhyw berson yn gwasanaethu am fwy na deuddeg mlynedd yn olynol fel Ymddiriedolwr gan gynnwys unrhyw gyfnod o wasanaeth fel Swyddog ac er mwyn osgoi amheuaeth, bydd person nad yw wedi gwasanaethu fel Swyddog yn gymwys i wasanaethu fel Ymddiriedolwr am wyth mlynedd yn olynol ar y mwyaf.
- (b) Bydd cyn-Ymddiriedolwr (neu gyn-Swyddog) yn gymwys i gael ei benodi'n Ymddiriedolwr ar yr amod bod y cyfryw berson wedi gwasanaethu fel Ymddiriedolwr (neu Swyddog) ddiwethaf dros bedair blynedd yn ôl.
- (4) Y personau hynny sydd mewn swydd fel aelodau Cyngor yr Amgueddfa a sefydlwyd o dan Siarter Atodol 1990 yn union cyn i'r Statudau hyn ddod i rym gyntaf fydd yr Ymddiriedolwyr cyntaf ac, er gwaethaf Statud 3(3)(a), byddant yn parhau i ddal eu swydd am weddill y tymor y cawsant eu hethol yn unigol amdano neu nes iddynt beidio â bod yn Ymddiriedolwr. Yna wrth i swyddi gwag godi fe'u llenwir drwy benodiad o dan Statud 3 (1) (a) neu (b) bob yn ail gan ddechrau ag (a) hyd at yr uchafswm a ganiateir gan bob cyfryw is-baragraff.
- (5) Mae Ymddiriedolwr yn peidio â dal ei swydd:
- (a) os bydd yn marw;
 - (b) os bydd wedi'i anghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwr yn rhinwedd adran 72 Deddf Elusennau 1993;
 - (c) os na fydd yn gallu rheoli ei faterion ei hun oherwydd anhwylder meddwl, salwch neu anaf; neu

- (ch) os bydd yn ymddiswyddo yn unol â'r Siarter a'r Statudau hyn (ond dim ond os bydd o leiaf ddau Ymddiriedolwr yn parhau yn eu swyddi pan fo'r ymddiswyddiad i ddod i rym); neu
 - (d) os bydd yn absennol heb ganiatâd yr Ymddiriedolwyr o'u holl gyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o chwe mis yn olynol ac os bydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu ei ddiswyddo.
- (6) Os bydd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu, bod amgylchiadau eithriadol, sy'n ei gwneud yn ddymunol i Ymddiriedolwr neu Swyddog sydd i ymddeol gael ei ailbenodi'n Ymddiriedolwr neu'n Swyddog gall yr Ymddiriedolwyr argymhell bod y cyfryw berson hwnnw yn cael ei ailbenodi am y cyfryw gyfnod pellach (nad yw'n hwy na dwy flynedd) ag y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ei argymhell, ac yna caiff y cyfryw benodiad (am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd) ei wneud, er gwaethaf amod Statud 2(2) a darpariaethau Statudau 2(3) a 3(3), yn ôl disgrisiwn lwyr y Penodwr gan y Penodwr yn unol â Statud 2(2)(a) neu (b) neu Statud 3(1)(a) neu (b) fel y bo'n briodol. Pan fydd y cyfryw gyfnod pellach o wasanaeth yn dod i ben, bydd yr Ymddiriedolwr neu'r Swyddog dan sylw yn ymddeol ac ni fydd yn gymwys i gael ei ailbenodi am gyfnod o bedair blynedd.

4. *Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr*

- (1) Cynhelir cyfarfodydd cyffredin o'r Ymddiriedolwyr ar y cyfryw amseroedd ac yn y cyfryw leoedd ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd. Ar yr amod bod cyfarfod arbennig o'r Ymddiriedolwyr yn cael ei alw gan Brif Weithredwr yr Amgueddfa ar ôl i'r Llywydd neu unrhyw bum Ymddiriedolwr wneud cais yn ysgrifenedig iddo wneud hynny ac ar yr amod ei fod yn cael ei alw fel y'i cynhelir o fewn tair wythnos i dderbyn y cais uchod. Ar yr amod hefyd bod y cais yn nodi natur y busnes i'w drafod yn y cyfryw gyfarfod arbennig.
- (2) Pennir amser a lleoliad pob cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr gan yr Ymddiriedolwyr neu gan unrhyw Bwyllgor y mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo'r cyfryw allu iddo ac yn niffygu unrhyw gyfryw benderfyniad fe'u pennir gan y Llywydd.
- (3) Yn ddarostyngedig i unrhyw Reoliadau a wneir o dan y paragraff a ganlyn cworwm cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd pum Ymddiriedolwr sydd yno'n bresennol yn bersonol, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Swyddog os bydd unrhyw Swyddogion wedi eu penodi.
- (4) Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau gellir cynnal cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr yn bersonol neu drwy fodd electronig addas neu gyfleuster cynadledda o bell a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr lle y caiff pob un yn y cyfarfod gyfathrebu'n briodol â phob un arall.
- (5) Oni ddarperir fel arall drwy'r Siarter neu'r Statudau hyn penderfynir ar bob mater drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwriwyd mewn cyfarfod ond mae penderfyniad ysgrifenedig a lofnodir gan bob Ymddiriedolwr mor ddilys â phenderfyniad a wneir mewn cyfarfod. At y diben hwn gall y penderfyniad gael ei gynnwys mewn mwy nag un ddogfen a bydd yn cael ei drin fel penderfyniad a wnaed ar ddyddiad y llofnod olaf.

5. *Galluoedd yr Ymddiriedolwyr*

Mae'r galluoedd sydd wedi'u breinio yn yr Ymddiriedolwyr gan y Siarter yn cynnwys y gallu:-

- (1) i reoli holl faterion yr Amgueddfa o bob math bynnag gan gynnwys prynu a chaffael eiddo real a phersonol a gwerthu, cyfnewid a gwaredu fel arall unrhyw gyfryw eiddo, talu holl ddyledion a rhwymedigaethau'r Amgueddfa, buddsoddi arian, darparu, codi, cyfarparu a chynnal a chadw adeiladau, gosod a chynnal a chadw eu tiroedd a'u mannau caeedig;
- (2) i benodi ac, os bydd angen, diswyddo Prif Weithredwr yr Amgueddfa ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddirprwyaethau a wneir ganddynt, aelodau eraill o staff yr Amgueddfa;
- (3) i wneud y cyfryw Reoliadau (gan gynnwys ynghylch cadw a defnyddio'r Sêl Gyffredin) nad ydynt yn anghyson â'r Siarter neu'r Statudau hyn ag a dybir ganddynt yn angenrheidiol i reoli'r Amgueddfa yn briodol ac unrhyw gynlluniau cyswllt â'r Amgueddfa a gall y cyfryw Reoliadau gael eu newid neu eu dirymu drwy Reoliadau newydd a wneir drwy Benderfyniad. Mwyafrif yr Ymddiriedolwyr sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud, dirymu neu ddiwygio Rheoliadau yw dau ymddiriedolwr o bob tri;
- (4) i bennu sut y cynhelir eu cyfarfodydd a'u gweithdrefnau a chyfarfodydd a gweithdrefnau eu pwyllgorau fel y tybir ganddynt yn angenrheidiol (gan gynnwys y graddau y mae'r cyhoedd yn cael mynediad at gyfarfodydd a phapurau) a newid neu ddirymu'r cyfryw benderfyniadau a gweithdrefnau o bryd i'w gilydd drwy fwyafrif syml. Gall y gweithdrefnau hyn gynnwys o dan ba amgylchiadau y caiff unrhyw un fwrw ail bleidlais neu bleidlais fantol.

6. *Y Ddyletswydd i Ymgynghori*

- (1) Bydd yr Ymddiriedolwyr:-
 - (a) yn mabwysiadu cynllun sy'n rhagnodi trefniadau i alluogi'r Ymddiriedolwyr:
 - (i) i ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd a chyda chyrrff â diddordeb mewn hyrwyddo amcanion yr Amgueddfa; a
 - (ii) i ganfod personau sy'n gymwys ac yn barod i roi cymorth a chynghor i'r Amgueddfa mewn cysylltiad â hyrwyddo amcanion yr Amgueddfa
 - (b) yn gweithredu'r cynllun y cyfeirir ato yn yr is-baragraff blaenorol ac adolygu ei delerau'n rheolaidd a newid y cyfryw gynllun o bryd i'w gilydd os gwelir yn dda i wneud hynny.
- (2) Mewn cysylltiad â'r ddyletswydd i ymgynghori neu fel arall caiff yr Ymddiriedolwyr sefydlu un neu fwy o gyrff cynghori neu ymgynghori i'r Amgueddfa. Swyddogaeth y cyfryw gorff yw cynorthwyo a chynghori'r Ymddiriedolwyr o ran datblygiad yr Amgueddfa yn y dyfodol a chaiff yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd bennu a diwygio'r rheolau a'r galluoedd sy'n rheoli'r cyfryw gorff ac yn y pen draw ei

ddiddymu. Ni fydd aelod o'r cyfryw gorff yn gyfrifol am faterion yr Amgueddfa. Y gallu i argymhell fydd unig allu'r cyfryw gorff a'i aelodau.

7. *Pwyllgorau'r Ymddiriedolwyr a Dirprwyo*

- (1) Caiff yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd benodi neu sefydlu'r cyfryw Bwyllgorau (a fydd yn gorfod cynnwys pwyllgor archwilio) fel y gwelant yn gyfleus ac yn cynnwys y cyfryw Ymddiriedolwyr fel y gwelant yn dda a naill ai gyda neu heb unrhyw berson neu bersonau eraill a chyda neu heb y gallu i ychwanegu atynt.
- (2) Yn ddarostyngedig i'r Siarter a'r Statudau hyn caiff yr Ymddiriedolwyr ddirprwyo, yn unol â'r cyfryw amodau ag a bennir ganddynt o bryd i'w gilydd, a chânt ddirymu dirprwyo, unrhyw rai o'u swyddogaethau (ac eithrio penodi a diswyddo Prif Weithredwr yr Amgueddfa) i Bwyllgorau a sefydlwyd gan yr Ymddiriedolwyr, i'r Swyddogion, i Brif Weithredwr yr Amgueddfa neu i swyddogion gweithredol eraill yr Amgueddfa, gyda neu heb y gallu i ddirprwyo ymhellach i gorff neu berson arall
- (3) Dylai unrhyw Bwyllgor sy'n arfer galluoedd a ddirprwyir gan yr Ymddiriedolwyr gynnwys mwyafrif o Ymddiriedolwyr
- (4) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhagnodi i ba raddau y dylid gosod cofnodion trafodion unrhyw gyfryw Bwyllgorau gerbron cyfarfodydd o'r Ymddiriedolwyr, am ba hyd y bydd Pwyllgorau wedi'u sefydlu a'r modd i'w dadsefydlu ac i ba raddau y dylid cyflwyno adroddiadau'r Pwyllgorau i gyfarfodydd o'r Ymddiriedolwyr.
- (5) Oni phennir i'r gwrthwyneb gan yr Ymddiriedolwyr, bydd y Swyddogion yn aelodau *ex-officio* o bob Pwyllgor.

8. *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*

- (1) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn paratoi cyfrifon blynyddol yr Amgueddfa a fydd yn cael eu harchwilio yn unol â'r Rheoliadau.
- (2) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad ar faterion a sefyllfa'r Amgueddfa yn ystod y flwyddyn flaenorol gan gynnwys y gyfryw wybodaeth ag a bennir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

9. *Rheoliadau*

Yn ddarostyngedig i'r Siarter a'r Statudau hyn ac yn ychwanegol at eu holl ddarpariaethau ar gyfer awdurdodi neu gyfarwyddo gwneud Rheoliadau yn benodol, caiff yr Ymddiriedolwyr wneud Rheoliadau o ran pob mater nad yw fel arall wedi'i reoleiddio drwy'r Siarter neu'r Statudau hyn.

10. *Amrywiol*

- (1) Mae'r darpariaethau a ganlyn (ac eithrio pan wneir darpariaeth arall yn benodol yn y Siarter neu'r Statudau hyn) yn gymwys i'r Ymddiriedolwyr ac i bob un o'u Pwyllgorau (sef cyrff a elwir yn y Statud hon "y Cyrff") a phob un ohonynt:

- (a) Caiff unrhyw Ymddiriedolwr neu aelod (ac eithrio Swyddog) ymddiswyddo drwy roi rhybudd yn ysgrifenedig i'r Llywydd neu Gadeirydd arall yr Ymddiriedolwyr.
 - (b) Nid yw diffyg technegol ym mhenodiad Ymddiriedolwr neu aelod neu ddiffyg gweithdrefnol nad yw'r Cyrff yn ymwybodol ohono ar y pryd yn annilysu penderfyniadau a wneir mewn cyfarfod o'r Cyrff.
 - (c) Ni fydd dim cyfarfod o unrhyw un o'r Cyrff yn annilys oherwydd unrhyw fethiant i hysbysu unrhyw berson neu Gorff o'r cyfryw gyfarfod y mae ganddynt hawl o dan y Siarter neu'r Statudau hyn i gael eu hysbysu ohono.
- (2) (a) Pan fo Statud neu Reoliad yn awdurdodi cyflwyno neu anfon neu roddi unrhyw ddogfen neu ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno neu anfon neu roddi unrhyw ddogfen, tybir bod y ddogfen wedi'i chyflwyno, wedi'i hanfon neu wedi'i rhoddi naill ai drwy gyfeirio'n gywir lythyr rhagdaledig sy'n cynnwys y gyfryw ddogfen a'i bostio neu drwy ei hanfon drwy ddulliau cyfathrebu electronig i gyfeiriad electronig y sawl y'i cyfeirir ato a thybir bod hynny wedi'i weithredu ar yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cafodd ei bostio neu ei hanfon yn electronig. Tybir bod unrhyw gyfryw lythyr wedi'i gyfeirio'n gywir os y'i cyfeirir at berson neu gorff yn y cyfeiriad (boed yn gyfeiriad post neu electronig) sy'n ymddangos gyferbyn â'i enw yn llyfrau'r Amgueddfa.
- (b) Mae prawf bod rhybudd sydd wedi'i gynnwys mewn cyfathrebiad electronig wedi'i anfon yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig yn dystiolaeth derfynol bod y rhybudd wedi'i roi.
- (3) Ac eithrio'r hyn a awdurdodir gan y Siarter rhaid i Ymddiriedolwr neu aelod o unrhyw Bwyllgor o'r Ymddiriedolwyr beidio â bod â chyfranddaliad neu fuddiant ariannol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (ac eithrio fel gwerthwr neu brynwr tir) mewn unrhyw gontract â'r Ymddiriedolwyr neu gyfryw Bwyllgor ohonynt neu mewn unrhyw gyflogaeth ganddynt neu mewn unrhyw waith ar eu rhan.

11. *Darpariaethau Dros Dro*

Caiff yr Ymddiriedolwyr drwy Reoliad ddarparu ar gyfer penderfynu ynghylch unrhyw amheuaeth a all godi ynglŷn ag unrhyw gwestiwn mewn perthynas â newid o gyn-Siarteri, Statudau ac Ordinadau'r Amgueddfa i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau hyn. Mae'r Statud hon yn peidio â bod mewn grym ar ddyddiad i'w benderfynu gan yr Ymddiriedolwyr.

ELIZABETH THE SECOND by the Grace of God of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and of Our other Realms and Territories Queen, Head of the Commonwealth, Defender of the Faith:

TO ALL TO WHOM THESE PRESENTS SHALL COME, GREETING!

WHEREAS the National Museum of Wales (“the Museum”) was incorporated by a Royal Charter granted on the 19th March 1907 (“the Original Charter”)

AND WHEREAS We were pleased by Supplemental Charter granted on the 10th October 1990 (“the Supplemental Charter of 1990”) to revoke the Original Charter except in so far as it constituted and founded the Museum as a Body Corporate with perpetual succession and a Common Seal and to make further provision in respect of the constitution and governance of the Museum:

AND WHEREAS by an humble Petition the Museum has represented unto Us that it would be expedient for the better management of its affairs and pursuit of its Objects that the constitution and governance of the Museum should be substantially revised:

AND WHEREAS the Museum has by the said Petition prayed that We might be graciously pleased to grant to it a further Supplemental Charter for the said purposes:

AND WHEREAS We are minded to accede to the prayer of the said Petition.

NOW THEREFORE KNOW YE that We, having taken the said Petition into Our Royal Consideration, have been pleased, by virtue of Our Prerogative Royal and of Our especial grace, certain knowledge and mere motion, to grant and declare, and do hereby for Us, Our Heirs and Successors, grant and declare as follows:-

Continuance
of the Body
Corporate

